

Sasiwn Ordeinio

Argraffiadau o Gymdeithasfa'r Hydref – Berea Newydd, Bangor, Hydref 9fed 2019

Llwyfan

Fel yr addawodd gweinidog Berea Newydd, y Parch Elwyn Richards yn y Goleuad, roedd croeso cynnes yn ein disgwyl yng Nghapel Berea Newydd, Bangor dydd Mercher Hydref 9fed 2019. Roedd yr adeiladau aml bwrpas, y capel hyfryd a'r maes parcio yn arbennig o addas i'n gofynion.

Cast

Roedd cast ardderchog wedi'i drefnu ar ein cyfer, sef Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd a Blaenor Eglwys Berea Newydd, Mrs Cynthia Owen, y Parch Marcus Wyn Robinson, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a Chyn-ysgrifennydd y Gymdeithasfa, ac Ysgrifennydd newydd y Gymdeithasfa, y Parch Ddr Elwyn Richards a gwnaeth y tri eu gwaith yn effeithiol a chydag urddas.

Plot

Dywedir mai amcan y cyfarfod ydi trafod materion sy'n codi o drafodaethau'r Henaduriaethau a'r Gymanfa Gyffredinol, cyd-addoli a chael ein hysbrydoli. I ba raddau y llwyddwyd i gyrraedd yr amcanion hyn?

Paratoi Trwydd

Y sioc fwyaf i gynrychiolwyr mae'n debyg ydi derbyn amlen drwchus drwy'r post yn cynnwys cofnodion, adroddiadau amrywiol a threfn y gweithgareddau a'r gwasanaethau. Gellir yn deg gofyn a fyddai modd crynhoi'r cofnodion a dirprwyo mwy o benderfyniadau i'r swyddogion? Y drefn arferol ydi cael y drafodaeth ar faterion polisi a gweinyddol yn ystod y bore ac eleni tafodwyd nifer o faterion pwysig i'r Cyfundeb, megis y Rheolau Gwerthu Eiddo a phwysigrwydd gweithredu yn unol â pholis'r Cyfundeb mewn perthynas â chydardoldeb.

Ennyn Trafodaeth

Roedd y drafodaeth yn arbennig o frwd wrth ystyried y trefniadau ar gyfer cynnal y gwasanaeth crefyddol yr Eisteddfod yn Llanrwst eleni y tu allan i faes yr

Eisteddfod. Cytunodd y Gymdeithasfa gyda barn Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy mai yn y pafiliwn y mae lle'r gwasanaeth.

Gwerthfawrogi

Yn ystod eisteddiad y bore, cafwyd cyfle i fynegi gwerthfawrogiad o wasanaeth Y Parchedig Marcus Wyn Robinson fel ysgrifennydd y Gymdeithasfa dros y tair blynedd diwethaf a dymuno'n dda i'w olynydd y Parchedig Ddr Elwyn Richards. Sylw bachog y Parchedig Elwyn Richards wrth dderbyn y swydd oedd "gallaf lenwi clogyn Marcus – ond nid ei esgidiau!"



Mrs Cynthia Owen, Parch Aled Lewis Evans, Wrecsam, Parch Marcus Wyn Robinson, Parch Ddr Elwyn Richards wedi'r Ordeinio

Cymdeithasu

Roedd sawl cyfle yn y bore a'r prynhawn i sgwrsio a chymdeithasu gyda chyfeillion hen a newydd. Paratowyd cinio ardderchog i ni. Ar ddiwedd y prynhawn, roedd cyfeillion Capel Berea Newydd wedi paratoi te croeso ar ein cyfer a chroesawyd cynrychiolwyr y Gymanfa Gyffredinol a'r Gymdeithasfa yn y De a'r Dwyrain ynghyd â chynrychiolwyr lleol yn cynnwys Mr John Wyn Williams, Maer Bangor. Yn sicr mwynhaodd y gynulleidfa'r wledd ac ymateb byr a hwyliog bob un o'r cynrychiolwyr yn eu tro.

Ordeinio

Yn ôl y drefn arferol, roedd pob eisteddiad yn dechrau gyda defosiwn byr a

phwrpasol, ond i mi, uchafbwynt y diwrnod oedd y cyfarfod cyhoeddus am 7:00 yr hwyr lle'r ordeiniwyd Mr Aled Lewis Evans, BA, BTh, Wrecsam. Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd seiat i'r Gweinidogion a'r Blaenoriaid lle cawsom gyfle i ymddiddan gyda Mr Evans o dan arweiniad y Parchedig Gwenda Richards. Ganwyd Mr Evans ym Machynlleth a magwyd ef yn Abermaw. Cafodd ei addysg yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ac ym Mhrifysgol Bangor. Bu'n darlledu ar radio lleol Sain y Gororau yn y Gymraeg a'r Saesneg a threuliodd gyfnod yn athro yn ei hen ysgol. Mae'n awdur, tiwtor, darlledwr a phregethwr yn y ddwy iaith ac enillodd sawl gwobr genedlaethol am ei waith. Mae'n bregethwr cynorthwyol mawr ei barch yn y gogledd ddwyrain a soniodd am yr ysbrydoliaeth a dderbyniodd gan sawl gweinidog a fu'n gwasanaethu arno yng Nghapel y Groes, Wrecsam.

Cefnogaeth

Teithiodd nifer fawr o gefnogwyr o gylch Wrecsam i'r Gwasanaeth Ordeinio a braf iawn oedd cael eu croesawu. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn o dan lywyddiaeth Mrs Cynthia Owen wrth i'r swyddogion perthnasol ein harwain yn urddasol trwy'r gwasanaeth. Traddodwyd Gwedd'r Ordeinio gan y Parchedig Robert W Jones.

Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, draddododd y bregeth a gweinyddu Sacrament Swper yr Arglwydd. Testun y bregeth, yn addas iawn, oedd hanes y daith i Emaus a'r anogaeth a geir yn yr ysgrythur i ni gyd-gerdded, cyd-drafod a dod i adnabod ein gilydd. Arweiniodd y geiriau hyn ni yn briodol iawn at wasanaeth y Cymun.

Gwerthfawrogi

Yn sicr, cawsom gyfle i droi at Dduw mewn addoliad a gweddi ac yn sicr cawsom ein hysbrydoli yn ystod y diwrnod arbennig yma yn Berea Newydd.

*Gwyn Hefin Jones
Brynrefail, Arfon*